Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 22 Tachwedd 2019** am 8.30am yn Ystafell Erddig, Prifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**

Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mr Kieran Irwin
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Sprake
Mr David Subacchi

**Swyddogion:**
Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-ganghellor)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)* eitem 19.27 yn unig

**Yn bresennol:**
Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd)*
Mr James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr)* eitemau 19.42,19.43,19.50 a 19.51 yn unig

| | | |
|---|---|---|
| **19.25** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau. | |
| **19.26** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y datganiad polisi tâl blynyddol 2018/19.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R datganiad polisi tâl 2018/19 i'w gyhoeddi. | |
| **19.27** | **Partneriaethau Rhyngwladol** | |
| | Cyflwynodd PVC Partnerships gyflwyniad ar bartneriaethau'r Brifysgol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan dynnu sylw at y rhai wedi'u hen ymesefydlu, wedi'u sefydlu'n ddiweddar a darpar bartneriaid yn y dyfodol. Amlinellwyd y prosesau cadarn sy'n eu lle i adnabod partneriaid, a'r adnoddaucysylltiedig i gefnogi gweithio mewn partneriaeth.<br><br>Nododd yr aelodau na ddylai nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy bartneriaid | |

| | | |
|---|---|---|
| | oresgyn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru, a bod targed y Brifysgol ymhell islaw'r trothwy hwnnw. Fodd bynnag, byddai'r targed cyfredol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.<br><br>Nodwyd mai'r Bwrdd Academaidd sy'n cael trosolwg o'r ddarpariaeth partneriaethau. Gofynnodd y Bwrdd am gynyddu'r adrodd am, neu dynnu sylw at, weithgareddau partneriaethau fel rhan o adroddiadau arferol, ynghyd â'r ciplun blynyddol o weithgarwch partneriaethau.<br><br>Gofynnwyd am gyflwyniad ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i gampysau gogledd Cymru ar gyfer cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd. | **AMc** |
| **19.28** | **Datgan buddiannau** | |
| | Datganodd Mrs Powell fudd yn yr eitem agenda'n ymwneud â Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni.Roedd hi'n bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.<br><br>Nododd Mr Paul McGrady fod ganddo beth profiad o ran dau gontractwr a oedd wedi cyflwyno tendrau ar gyfer uwchraddio Tŷ Henblas. Penderfynwyd nad oeddhyn yn wrthdaro buddiannau gan nad oedd llywodraethwyr wedi bod yn rhan o'r broses gaffael.<br><br>Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau eraill o ran unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **19.29** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2019 yn gofnod gwir a chywir odrafodion y cyfarfod. | |
| **19.30** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.31** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad ac ymddiswyddiad Mrs Caroline Whiteley ac y byddai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n annog ceisiadau ar gyfer y sedd wag ganddilyn y broses recriwtio bresennol, unwaith y bo cyfnod amser addas wedi myndheibio.<br><br>CYTUNO derbyn argymhellion i'w hystyried ar gyfer cymeradwyo dau aelodannibynnol ac aelod cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio trwy eu dosbarthu i aelodau'r Bwrdd maes o law. | |
| **19.32** | **Adroddiad yr Is-ganghellor** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Nodiadau o Ddiwrnod Strategaeth y Bwrdd ym mis Hydref.<br>(ii) Maniffesto UUK gan brifysgolion y Deyrnas Unedig ar gyfer EtholiadCyffredinol 2019 (dosbarthwyd)<br>(iii) Blaenoriaethau Prifysgolion Cymru ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol 2019(dosbarthwyd)<br>(iv) Diweddariad diogelwch tân (dosbarthwyd yn y cyfarfod)<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyfeiriodd yr Is-ganghellor at nodiadau'r Diwrnod Strategaeth a thynnodd sylw atyr ansicrwydd sy'n parhau o ran y sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd. Bwriediredrych ar y cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd eto unwaith y ceir mwy o eglurder ynghylch y materion hyn.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Is-gangellorion a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Bangor, lle trafodwyd dulliau cydweithredol o weithio gyda'i gilydd. Roedd memorandwm o ddealltwriaeth wedi'i lofnodi eisoes igadarnhau y byddai tendr ar y cyd ar gyfer darpariaeth iechyd gynghreiriol ar gyfer gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno i'r corff comisiynu, Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Roedd meysydd gwaith eraill hefyd lle'r oedd y prifysgolion wedi partneru ac roedd trafodaethau'n parhau ynghylch mwy o gydweithredu.<br><br>Nododd yr aelodau bod Prif Weithredwr newydd Coleg Cambria, Yanina Williams,wedi'i phenodi i ddechrau yn Ionawr 2020 ac roedd yr Is-ganghellor yn gobeithio ei chyfarfod maes o law. Mae'r Brifysgol yn awyddus i ddatblygu perthynas waith dda gyda Choleg Cambria i sicrhau dilyniant llyfn o addysg bellach i addysg uwchac i ddatblygu'r cyfleoedd cydweithredu ymhellach.<br><br>Yn sgîl tân mewn llety myfyrwyr ym Mhrifysgol Bolton cyflwynwyd nodyn briffio ar ddiogelwch ym Mhentref Myfyrwyr Wrecsam. Roedd hwn yn atgoffa'r aelodau amy gwaith craffu a wnaed gan Bwyllgor Adnoddau Dynol y Bwrdd o ran y cladin rhannol ar y llety a sicrwydd ynghylch y safonau a systemau diogelwch uwch sy'ncael eu rheoli gan dîm ystadau'r Brifysgol. Nodwyd bod adeiladwaith Pentref Myfyrwyr Wrecsam yn wahanol i lety myfyrwyr Bolton. Roedd y polisi 'pawb allan' yn Bolton wedi cyfrannu at sicrhau nad oedd unrhyw farwolaethau nac anafiadau.Roedd y Pwyllgor Adnoddau Dynol i dderbyn diweddariad yn fuan yn 2020 ar unrhyw ganfyddiadau perthnasol yn deillio o ymchwiliad Tŵr Grenfell pan fo wedi'igwblhau, yn ogystal ag unrhyw newidiadau sylfaenol i Bentref Myfyrwyr Wrecsama allai newid y sefyllfa bresennol. Byddai'n ddefnyddiol clywed barn y CynghoryddDiogelwch Tân am y tân yn Bolton, pan fo hynny'n hysbys.<br><br>Dywedodd yr Undeb Myfyrwyr y byddai nodyn briffio i roi sicrwydd i fyfyrwyr ym Mhentref Myfyrwyr Wrecsam yn ddefnyddiol ac, er nad yw Neuadd yr Wyddfa'n perthyn i'r Brifysgol, byddai'n ddefnyddiol anfon nodyn briffio priodol tebyg at y myfyrwyr sy'n byw yno. Roedd adroddiad wrthi'n cael ei baratoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch mesurau diogelwch tân yn llety myfyrwyry Brifysgol.<br><br>Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'i thîm am y briffio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **LP**<br><br>**LP** |
| **19.33** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad yn ei ddiwyg newydd. Adroddodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr bod eu Cyngor Myfyrwyr wedi cyfarfod am y tro cyntaf yn gynharach yn yr wythnos ac wedi pleidleisio i beidio â chadarnhau maniffesto'r Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol (NUS) ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019. Serch hynny byddai'r Undeb Myfyrwyr yn annog myfyrwyr i gofrestru a phleidleisio yn yr Etholiad.<br><br>Bu rhai problemau cyfathrebu rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr gan arwain atymdrechion i recriwtio cynrychiolwyr myfyrwyr ar gyfer nifer fechan o gyrsiau nad oeddynt yn cael eu cynnal yn 2019/20. Roedd hyn wedi'i ddatrys bellach. Derbyniwyd pedwar cwyn am bobl yn ysmygu, a nifer yr un mor isel ynghylch parcio ar ddiwrnod penodol ac ynghylch y dewisiadau bwyta'n iach yn y ffreutur. Tra nad oedd y rhain yn sylfaenol i brofiad dysgu'r myfyrwyr, roedd y rheolwyr wedi gofyn am y gallu i ymateb i gwynion Dweud wrth Glyn o'r fath ac roedd yr Undeb Myfyrwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol ar gyfleusterau a fyddai'n caniatáu ihynny ddigwydd.<br><br>Nodwyd bod nifer arwyddocaol o apeliadau academaidd a phan drafodwyd adroddiad yr Undeb Myfyrwyr yn y Bwrdd Academaidd roeddynt wedi herio'r rhesymau a nodwyd am yr oedi cyn darparu canlyniadau apêl i'r myfyrwyr dan sylw. Cydnabuwyd y bu cynnydd o 19% mewn apeliadau academaidd, ond roeddy rhan fwyaf wedi derbyn ymateb cyn pen pum diwrnod. Serch hynny, roedd y Brifysgol yn ceisio gwella ei phrosesau gan gweithio gyda chanolfan gyngor yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>Awgrymodd aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld niferoedd y cwynion yn yflwyddyn flaenorol er cymhariaeth mewn adroddiadau'n y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **UM** |
| **19.34** | **Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol drafft 2018/19** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn yndiweddu 31 Gorffennaf 2019.<br>(ii) Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19.<br>(iii) Adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2018/19.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**19.34.01 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiad a oedd yn tynnu sylw at farn yr Archwilwyr Allanol fel y nodwyd yn eu llythyr rheoli i'r Pwyllgor. Yn ychwanegol, roedd adroddiad yr Archwilwyr Mewnol yn cefnogi'r datganiadau yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol o ran cyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd ynghylch rheoli risgiau a threfniadau llywodraethu. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at adroddiad blynyddol llawn yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2018/19, yr ystyriaeth a roddwyd gan y Pwyllgor i faterion gwerth am arian a chaffael yn ystod y flwyddyn, cymeradwyo'r datganiad llywodraethu corfforaethol a chasgliadau'r Pwyllgor.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid y datganiadau ariannol a thynnu sylw at bwyntiau allweddol o'r drafodaeth isod. | |
| | **19.34.02 Grŵp y Brifysgol**<br>Roedd yr Archwilwyr Allanol wedi datgan y byddent yn rhoi barn archwilio diamod. | |

Cyflawnwyd gwarged gweithredol o £1,286k ac, wrth ystyried ymrwymiadau cynllun pensiwn, byddai'r gwaged gweithredol net wedi bod yn £710k gan adeiladu ar y blynyddoedd blaenorol. Roedd addasiadau anarferol ac un tro'n unigar gyfer costau gwasanaeth blaenorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i adlewyrchu'r dyfarniad llys yn achos McCloud a ffi amhariad i adlewyrchu gwaredu arfaethedig y Chwarter Gogleddol wedi arwain at ddiffyg net o (£615). Fodd bynnag, roedd y trosiant yn uwch, incwm wedi cynyddu a chostau staff wedilleihau. Roedd yr asedau sefydlog wedi cynyddu yn dilyn caffael Pentref MyfyrwyrWrecsam, ac roedd y credydwyr wedi cynyddu oherwydd ymrwymiadau benthyciadau a'r ad-daliad £1m i AIB yn Awst 2019. Effaith cynnydd yn yr ymrwymiadau pensiwn heb fod yn ymrwymiadau arian parod oedd lleihau gwerth net y Brifysgol.

Deallwyd bod nifer arwyddocaol o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig yn mynd i fodmewn sefyllfa ddiffyg o ganlyniad i addasiadau pensiwn. Roedd Grŵp Cyfarwyddwyr Ariannol Prifysgolion Prydeinig yn bwriadu cyflwyno canllawiau i'r sector Addysg Uwch i gynorthwyo gyda dealltwriaeth y rhanddeiliaid ynghylch sefyllfa ariannol Prifysgolion. Roedd CCAUC hefyd yn ystyried y negeseuon i'r cyhoedd a'r cyfryngau ynghylch perfformiad Prifysgolion Cymru.

**19.34.03 Glyndwr Innovations Ltd**
Roedd trosiant ac elw crynswth y cwmni wedi cynyddu, a gwnaed colled bach o(£19,040), a oedd yn welliant arwyddocaol o'i gymharu gyda 2017/18. Roedd y gyllideb yn dangos gwarged bychan ar gyfer 2019/20.

Roedd rhai costau y gellid eu tadogi'n uniongyrchol i'r is-gwmni yn cael eu talu gan y Brifysgol ar hyn o bryd, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu. Gwnaeth yr aelodau sylwadau bod y ddarpariaeth dyledion drwg yn ymddangos yn uchel, aceglurwyd y defnyddir yr un rheolau darpariaeth dyledion drwg ag a gymhwysir argyfer y Brifysgol gyda GIL hefyd. Roedd yn bosibl y byddai angen rhyddhau pethdarpariaeth yn 2019/20. Nodwyd bod cyfarwyddwyr newydd ychwanegol wedi'u penodi i Fwrdd y Cwmni i'w gryfhau o gofio'r cynnydd yn lefel y gweithgarwch.

Byddai'r Brifysgol yn darparu llythyr yn cefnogi Glyndwr Innovations Ltd yncadarnhau ei fod yn parhau'n fusnes gweithredol.

Roedd yr Archwilwyr Allanol wedi datgan y byddent yn rhoi barn archwilio diamod.

**19.34.04 Gwyddoniaeth Gogledd Cymru**
Roedd y cwmni elusennol wedi gwneud colled ond roedd gwargedau cronnus o flynyddoedd blaenorol wedi gwrthsefyll hyn. Roedd yr asedau sefydlog a dyledwyrwedi cynyddu yn gysylltiedig â chaffael Tŷ Henblas. Esboniwyd y rhesymau am y newidiadau a'r cynnydd yn nifer y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr a nodwyd y byddai un o Ddeoniaid Cyswllt y Gyfadran yn hoffi cael ei wahodd i fod yn aelod o'r Bwrdd i ddarparu cyswllt academaidd.

Byddai'r Brifysgol yn darparu llythyr yn cefnogi Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn cadarnhau ei fod yn parhau'n fusnes gweithredol.

Roedd yr Archwilwyr Allanol wedi datgan y byddent yn rhoi barn archwilio diamod.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y byddai cynnydd yn yr adrodd am berfformiad yr is-gwmnïau'n cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. Yn ychwanegol, pan fyddai'r broses o adleoli canolfan darganfod

| | | |
|---|---|---|
| | gwyddoniaeth Gwyddoniaeth Gogledd Cymru'n i Dŷ Henblas wedi'i gwblhau yn ystod 2019/20, byddai adroddiadau manylach cael eu cynhyrchu i fonitro cyflawni'r cynllun busnes ar gyfer y lleoliad newydd.<br><br>Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled arwyddocaol yn cyflawni'r datganiadau ariannol ar gyfer 2018/19.<br><br>**19.34.05 Datganiadau Ariannol yr Undeb Myfyrwyr 2018/19**<br>Manteisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar y cyfle i adrodd nad oedd archwiliad cyfrifon yr Undeb Myfyrwyr wedi'i gwblhau gan eu darparydd allanol mewn pryd ar gyfer eu cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ond byddent yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor maes o law. Roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi adrodd ar lafar wrth y Pwyllgor eu bod wedi gwneud gwarged gweithredol ond effeithiwyd arno gan ymrwymiadau pensiwn wedi cynyddu'n arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd incwm masnachol yr Undeb Myfyrwyr yn tyfu, roeddynt yn parhau'n gynaliadwy ac roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi'i reoli'n dda o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI'R datganiadau ariannol 2018/19 ar gyfer is-gwmnïau'r Brifysgol.<br><br>CYMERADWYO adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2018/19 Grŵp y Brifysgol, yn cynnwys y datganiad llywodraethu corfforaethol a CHYTUNO y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr sylwadau i'r archwilwyr.<br><br>CYMERADWYO darparu llythyr i Wyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndwr Innovations Ltd.<br><br>NODI'R adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio.<br><br>NODI adroddiad blynyddol 2018/19 yr Archwilwyr<br><br>Mewnol.NODI'R adroddiad ar gyfrifon 2018/19 yr Undeb<br><br>Myfyrwyr. | |
| **19.35** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 31 Hydref 2019.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw bod gwarged o £636k wedi'i ragfynegi ar gyfer diwedd y chwarter cyntaf yn awr yn erbyn gwarged yn y gyllidebo £692k a nodwyd y rhesymau am hyn. Roedd yr is-gwmnïau ar y trywydd cywir i gyflawni gwarged yn unol â'r gyllideb.<br><br>Tynnwyd sylw'r aelodau at y rhagfynegiad llif arian estynedig a oedd yn dangos rhagfynegiad balans arian parod o £5m ar ddiwedd y flwyddyn. Gofynnodd y Bwrdd am ddatblygu cyllideb gyfalaf ar gyfer 20/21 ymlaen, gyda mewnlifiadau acall-lifiadau gwariant cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu mewn cyllideb llif arian yn ychwanegol at y cynigion cyllideb arferol.<br><br>Hysbyswyd bod Sancus Finance yn tynnu'n ôl o'r farchnad addysg ac roedd y Brifysgol mewn trafodaethau gyda darpar ddarparwyr newydd i roi darpariaethcredyd cylchol yn ei lle. | **DE**<br><br>**DE** |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys yn adroddiadau'r dyfodol ynghylch credydau rhan amser a pherfformiad ariannol Addysg Trawswladol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.36** | **Adroddiad sicrwydd cynaliadwyedd blynyddol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol Rhagfyr 2019 a thystiolaeth gefnogol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellwyd y cefndir i gyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol. Roedd yr adroddiad wedi'i ddarparu'n hwyr, gyda'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, gan ei bod yn ofynnol gwneud addasiadau i'r dystiolaeth i adlewyrchu trafodaethau'r Pwyllgor Archwilio. Eglurwyd bod cyfrifo maint y cynaliadwyedd a'r incwm yn edrych ar arian parod gweithredol yn erbyn y cyfanswm incwm; a bod maint y cynaliadwyedd a'r incwm ar gyfer 2018/19 yn 9% (7.5% yn 2017/18 a 6.8% yn 2016/17). Roedd y Brifysgol yn yr un ystod â sefydliadau eraill yng Nghymru, sef rhwng 5% a 15%.<br><br>Holodd aelod am yr amryfusedd ymddangosiadol rhwng enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA) y flwyddyn unigol ar gyfer data maint y cynaliadwyedd a'r incwm yn yr atodiad cyfrifo a'r sefyllfa grynodeb yng nghorff yr adroddiad. Eglurwyd bod y cyfrifo yn yr atodiad yn ffigur cyfartalog 6 blynedd h.y.<br>£3,190k ar gyfer 2018/19 a gymharwyd yn uniongyrchol gyda ffigur 2017/18 o<br>£2,635k. Y gwir ffigur EBITDA ar gyfer blwyddyn 2018/19 oedd £2,920k a oedd ynwahanol i'r cyfartaledd 6 blynedd.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried y naratif yn erbyn pob un o'r datganiadau cynaliadweydd, a'r rhai a wnaed ynghylch busnes gweithredol, yn ychwanegol at ystyried y datganiadau ariannol, yr adroddiad rheolaeth ariannol, y rhagfynegiad llif arian estynedig ynghyd ag adroddiad ar ddangosyddion perfformiad allweddol. Penderfynodd y Bwrdd fod y Brifysgol yn parhau i fod yn fusnes gweithredol ac yngynaliadwy am y dyfodol rhagweladwy.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYTUNO bod y Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy am y dyfodol rhagweladwy a CHYMERADWYO dirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd lofnodi'r Datganiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol ar ran y Bwrdd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido. | |
| **19.37** | **Adroddiad gan y panel craffu ansawdd a safonau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Nodiadau ac adroddiad y Panel Craffu Ansawdd a Safonau.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd Panel Craffu Ansawdd a Safonau'r Bwrdd yr adroddiad. Tynnodd sylw bod y Panel wedi ailymweld ac ystyried yr adroddiadau a ddarparwyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chael golwg gynnar ar adroddiadau'r Bwrdd Academaidd yn ddiweddarach ar yr agenda, a nodwyd yng nghofnod 19.41; ac y gwnaeth yr aelodau ei ystyried, yn ychwanegol at adroddiady Panel, wrth gyrraedd eu casgliadau.<br><br>Roedd y Panel wedi nodi'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn 2018/19 ac wedi gwneud rhagor o awgrymiadau ar gyfer 2019/20. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolchodd y Panel, a oedd yn cynnwys Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, i'r cydweithwyr academaidd a oedd wedi ymgysylltu gyda nhw ac roeddynt wedicytuno i fyfyrio ar yr ymgysylltu hwnnw ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cadarnhau'r pump datganiad sicrwydd ansawdd a safonau allofnodi'r datganiadau gan Gadeirydd y Bwrdd i'w cyflwyno i CCAUC.<br><br>NODI'R adroddiadau a ddarparwyd gan y Bwrdd Academaidd fel rhan o'r sailtystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd. | |
| **19.38** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Campws 2025 yn cynnwys:<br>(i) Diweddariad ynghylch apeliadau cynllunio<br>(ii) Diweddariad ar waredu'r Chwarter Gogleddol<br>(iii) Cynlluniau gwariant a chamau datblygu<br>(iv) Cais i gronfa cyfalaf CCAUC<br>(v) Cynnig NWSD Ltd<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**19.38.01 Diweddariad ar waredu'r Chwarter Gogleddol**<br>Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi cytuno i argymell i'r Bwrdd bod y rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio ar y ddau gynigydd uchaf a threfnu cynnal cyfarfod arbennig y Bwrdd maes o law i ystyried ac, os yw'n briodol, cymeradwyogwaredu'r Chwarter Gogleddol, yn ddarostyngedig i Adroddiad Elusennau.<br>Bellach roedd Legat Owen wedi gwneud argymhelliad ac roeddynt yn y broses obaratoi Adroddiad Elusennau. CYTUNWYD y byddai cyfarfod arbennig yn cael eigynnal am 11.00am ddydd Gwener, 13 Rhagfyr 2019, i ystyried cymeradwyo gwaredu'r safle.<br><br>**19.38.03 Cynlluniau gwariant a chamau datblygu**<br>Nodwyd bod mwyafrif cam 1 wedi'i gwblhau, byddai cam 2 yn cael ei gwblhau ganddefnyddio cyllid cyfalaf CCAUC a byddai cam 3 yn canolbwyntio ar feysydd a fyddai'n cyfrannu at welliannau i brofiad y myfyrwyr ac yn cefnogi datblygu'r cwricwlwm. Roedd y cynllun gwariant yn unol â disgwyliadau incwm, er bod bwlchcyllido'n parhau a byddai'r rheolwyr yn diweddaru'r tabl incwm a gwariant wrth i wybodaeth costau newydd ddod yn hysbys.<br><br>Dros y ddwy flynedd ddiwethaf roedd £18.2m wedi'i wario ar y prosiect Campws2025 hyd yma.<br><br>Mae'r Brifysgol mewn trafodaethau gyda chwmni ynghylch cyflenwad tymor hir darpariaeth gwres a phŵer cyfunol. Byddai achos busnes yn cael ei ddatblygu osbwriedir dilyn y dewis hwn.<br><br>**19.38.04 Cais i gronfa cyfalaf CCAUC**<br>Roedd Grŵp Llywio Campws 2025 wedi cyflwyno tri phrosiect yn y cais i CCAUC,a oedd yn cynnwys amcangyfrifon costau ar ôl cwblhau prosiectau tebyg yn flaenorol. Derbyniwyd cadarnhad bod y cais wedi'i dderbyn gan CCAUC heb unrhyw addasiadau. Byddai'r cyllid yn cael ei dderbyn erbyn diwedd Tachwedd ermwyn i'r broses gaffael ddechrau. Byddai'r gwaith yn debygol o ddechrau ym misMawrth 2020.<br><br>**19.38.05 Cynnig NWSD Ltd** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd bod cais y Bwrdd i wahanu dwy brif elfen y cynnig wedi'i gyflwyno i NWSD Ltd ac roeddynt wedi cadarnhau nad oedd hyn yn bosibl. Yn dilyn cadarnhad nad oedd y cyfraddau meddiannu cyfredol ym Mhentref Myfyrwyr Wrecsam yn cefnogi'r angen am lety myfyrwyr ychwanegol yn Stryt y Rhaglaw arhyn o bryd, roedd y rheolwyr, ac yn dilyn hynny'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, yn argymell peidio â bwrw ymlaen gyda'r cynnig llawn ar hyn o bryd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYTUNO i gynnal cyfarfod arbennig y Bwrdd ar 13 Rhagfyr i ystyried gwaredu'r Chwarter Gogleddol.<br><br>CYMERADWYO peidio â bwrw ymlaen gyda'r cynnig gan NWSD Ltd ar hyn obryd. | |
| **19.39** | **Uwchraddio Tŷ Henblas** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar y broses gaffael ar gyfer uwchraddio Tŷ Henblas er mwyn adleoli'r ganolfan canfod gwyddoniaeth a reolir gan Wyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf (dosbarthwyd yr adroddiad yn y cyfarfod).<br><br>**Adroddwyd:**<br>Atgoffwyd yr aelodau am gefndir y broses gaffael, a oedd mewn dau gam. Roedddau brif gontractiwr wedi cyflwyno tendrau ac roedd yr adroddiad yn argymell rhoistatws contractwr a ffefrir i Spatial Office Environments. Bydd rhagor o negodi a pheirianneg gwerth am arian o ran y dyluniad yn cael ei gynnal yng ngham 2.<br><br>Ystyriwyd enghreifftiau'r buddion cymunedol a gynhwyswyd yn nhendr Spatial Office Environments. Nodwyd bod y Dirprwy Is-ganghellor eisoes wedi cyfarfodgyda Rheolwr Gyfarwyddwr Spatial, a oedd yn gyn-fyfyriwr y Brifysgol, ac yn bwriadu cysylltu gyda ef gyda'r Gyrfaoedd o ran eu rhaglen allgyrraedd.<br><br>Nododd y Bwrdd y byddai swm yn cael ei ddal yn ôl nes derbyn tystysgrif cwblhauymarferol ar ddiwedd y cytundeb. Pan fyddent yn cael eu dyfarnu bydd y cytundebau'n cael eu llofnodi dan sêl a holwyd a fyddai hyn yn cael yr effaith o gynyddu'r cyfnod gwarant a roir gan y contractwr ar eu gwaith, yn ychwanegol at gynyddu'r cyfnod cyfyngu ar gyfer gweithredu cyfreithiol gan y Brifysgol. Byddai hyn yn cael ei wirio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO Spatial Office Environments fel y contractwr a ffefrir ar gyferuwchraddio Tŷ Henblas.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i gymeradwyo'r dyfarniad terfynol unwaith y botrafodaethau a negodi cam 2 wedi'u cwblhau. | **VB** |
| **19.40** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adlewyrchodd y Cadeirydd ar y seremonïau graddio a'r cinio Cymrodorion Anrhydeddus llwyddiannus a gynhaliwyd ddiwedd Hydref. Roedd hi wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ym mis Hydref ar y thema prifysgolion yn eu cymunedau.<br><br>Roedd wedi bod yn bresennol mewn dau gyfarfod panel Adolygu Llywodraethu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru hefyd, ac adroddodd y Cadeirydd bod Arweinydd yr Adolygiad wedi ymchwilio i ymarfer llywodraethu da ar draws amrediad o sectorau yn ogystal ag addysg uwch. Roedd canlyniadau'r adolygiad yn parhau'n gyfrinachol ar hyn o bryd, ond roedd yn debygol y byddai rhai argymhellion i'r sector, yn ogystal ag argymhellion sefydliadol, yn deillio o'r adolygiad. Roedd Cadeiryddion PrifysgolionCymru a Phrifysgolion Cymru wedi trafod adroddiad dechreuol.<br><br>Roedd y Cadeirydd wedi cynnal rhai cyfarfodydd unigol gyda llywodraethwyr a byddai'n casglu'r pwyntiau dysgu o'r rheiny a chyfarfodydd blaenorol ar gyfer diwrnod Datblygu Llywodraethwyr yn Ebrill 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.41** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad ar y trafodion busnes yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd agynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.<br>(ii) Adroddiad blynyddol uniondeb ymchwil 2018/19<br>(iii) Adroddiad blynyddol trosolwg safonau 2018/19<br>(iv) Adroddiad trosolwg Arholwyr Allanol 2018/19<br>(v) Adroddiad blynyddol cwynion myfyrwyr 2018/19<br>(vi) Adroddiad blynyddol ymddygiad myfyrwyr 2018/19<br>(vii) Cofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol 2019<br>(viii) Adroddiad blynyddol trosolwg monitro 2017/18<br>(ix) Adroddiad trosolwg dilysu 2018/19<br>(x) Diweddariad y Strategaeth ar gyfer cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr achynllun gweithredu 2019/20<br>(xi) Adroddiad canlyniadau Gradd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2018/19<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi nodi adborth ar ganlyniadau trafodaeth ac awgrymiadau'r Panel Ansawdd a Safonau wrth ystyried datganiadausicrwydd blynyddol CCAUC.<br><br>Atgoffwyd yr aelodau am y drafodaeth genedlaethol ynghylch canlyniadau gradd anodwyd y byddai'n ofynnol i'r holl brifysgolion gyhoeddi datganiad canlyniadau gradd ar gyfer 2019/20 a fyddai'n esbonio'r tueddiadau, cymharu canlyniadau ar draws y Deyrnas Unedig a meincnodi sefydliadau cymheiriaid yn ogystal â pherfformiad disgwyliedig yn y dyfodol. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Llywodraethwyr trwy adroddiad y Bwrdd Academaidd a fyddai'n caelei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol wedi hynny.<br><br>Holodd yr aelodau am statws cyfredol ac yn y dyfodol myfyrwyr a nodir fel'ynghwsg', a gofynnwyd am eglurhad trwy anfon e-bost.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CADARNHAU'R Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2018/19 i'w gyhoeddi. | **VB** |
| **19.42** | **Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol.<br>(ii) Map gwres risgiau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.43** | **Monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19** | |
| | **Derbyniwyd**<br>Cais i ddirprwyo hawl i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd gymeradwyo'r adroddiadmonitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19 i alluogi cyflwyno'r cynllun yn Ionawr 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO dirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ystyried a chymeradwyo adroddiad monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19, gan nodiy byddai'r adroddiad yn cael ei gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf a drefnwyd. | |
| **19.44** | **Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb o dri cylchlythyr a gyhoeddwyd gan CCAUC ers y cyfarfod yn Hydref 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.45** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio sêl y Brifysgol ers Gorffennaf 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad ac y defnyddiwyd y Sêl ar un achlysur ers Gorffennaf 2019. | |
| **19.46** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **19.46.01 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 17 Hydref 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **19.46.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 7 Tachwedd 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor.<br><br>CYMERADWYO dyfarnu'r contract ar gyfer gwasanaethau glanhau'r Brifysgol i Churchill Contract Services am dair blynedd, gydag opsiwn i ymestyn am ddau gyfnod blwyddyn hyd at Fehefin 2024, yn ddarostyngedig i berfformiad boddhaol. | |
| | **19.46.03 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 8 Tachwedd a hefyd cofnodion y cyfarfod arbennig agynhaliwyd ar 14 Tachwedd wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod.<br><br>CYMERADWYO ailbenodi KMPG fel archwilwyr allanol y Brifysgol ar gyfer2019/20.<br><br>CYMERADWYO ailbenodi RSM fel archwilwyr mewnol y Brifysgol ar gyfer2019/20. | |
| | **19.46.04 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod.<br><br>CYMERADWYO gwahodd Mr Ian Lucas i dderbyn Cymrodoriaeth Anrhydeddusyn seremonïau gwobrwyo Hydref 2020.<br><br>NODI cynllun gweithredu'r Adolygiad Effeithiolrwydd wedi'i ddiweddaru. | |